**Teitl y Swydd:** **Hyfforddwr Arweiniol - Datblygu Chwaraeon**

**Sefydliad:** **Gwella Cymru**

**Yn atebol i'r:** **Cydlynydd Chwaraeon Ysgolion a Chymunedau**

**PRIF BWRPAS/RHESWM DROS Y SWYDD**

Darparu sesiynau gweithgareddau chwaraeon cynhwysol a llawn hwyl ar gyfer plant a phobl ifanc yn Sir y Fflint fel rhan o raglen gymunedol arloesol y tîm Datblygu Chwaraeon. Bydd deiliad y swydd yn gweithio o fewn ysgolion, canolfannau hamdden a lleoliadau cymunedol i gefnogi'r tîm i gyflwyno sesiynau yn ystod y dydd, min nos ac ar benwythnosau.

Bydd cyfle i ddeiliad y swydd gyfrannu at waith cynllunio sesiynau a mentrau ar gyfer y dyfodol drwy rannu eu syniadau a chefnogi aelodau eraill y tîm i ddatblygu cynlluniau cyflawni.

**PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU**

1. Darparu hyfforddiant chwaraeon ar draws ystod o raglenni gan gynnwys 0-3 oed, ysgolion, clybiau, grwpiau ieuenctid a lleoliadau cymunedol eraill.

2. Gweithio fel rhan o'r tîm Datblygu Chwaraeon i ddarparu rhaglenni gwyliau ysgol a gweithgareddau chwaraeon eraill.

3. Datblygu cynlluniau sesiynau cynhwysol a llawn hwyl y gellir eu gweithredu mewn lleoliadau amrywiol gyda gwahanol grwpiau ac ystod oedran.

4. Trefnu'r offer sydd ei angen ar gyfer y sesiynau a sicrhau y cwblheir asesiadau risg priodol a'u bod yn cael eu diweddaru fel bo'n briodol.


5. Cysylltu â chydweithwyr yn y tîm Datblygu Chwaraeon i gyfathrebu effaith y rhaglenni a'r gweithgareddau a'u cyfraniad ar gyfer cynlluniau cyflawni a chanlyniadau sydd wedi'u rhag-benderfynu.

6. Defnyddio meddalwedd *Upshot* (teclyn rheoli i fonitro a thystiolaethu gwaith, a phrofi ei effaith) i lenwi cofrestrau a chefnogi gwerthusiad a gwelliant parhaus y sesiynau sy'n cael eu darparu gan y tîm.

7. Cefnogi twf a lles y cyfranogwyr sy'n mynychu'r sesiynau drwy sgyrsiau a chyfeirio at wasanaethau eraill a allai gynnig cefnogaeth ychwanegol.

8. Cydweithio gyda phartneriaid a budd-ddeiliaid i ddarparu sesiynau sy'n cefnogi nodau ac amcanion yr holl bartïon â diddordeb.

## STRWYTHUR SEFYDLIADOL




## GWYBODAETH A SGILIAU

| Maes | Hanfodol / Dymunol | Dull Asesu |
|---|---|---|
| <u>Cymhwyster</u><br>- Cymhwyster Hyfforddi Lefel 2 gan y Corff Llywodraethu Cenedlaethol, neu gyfwerth | H | Ffurflen Gais |
| - Cymhwyster Gwaith Ieuenctid Lefel 2, neu brofiad o weithio mewn lleoliad ieuenctid | D | Ffurflen Gais |
| - Trwydded yrru lawn | H | Ffurflen Gais |

| | | |
|---|---|---|
| - Ymrwymiad i gwblhau hyfforddiant ychwanegol i gefnogi datblygiad personol a phroffesiynol | H | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| <u>Gwybodaeth</u><br>- Profiad o hyfforddi grwpiau oedran amrywiol mewn ystod eang o leoliadau<br><br>- Profiad o weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion a chlybiau cymunedol<br><br>- Gwybodaeth am wahanol chwaraeon a gweithgareddau, a thechnegau er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc. | H<br><br>H<br><br>H | Ffurflen Gais / Cyfweliad<br><br>Ffurflen Gais / Cyfweliad<br><br>Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| <u>Sgiliau</u><br>- Sgiliau arweinyddiaeth a chyfathrebu da<br><br>- Sgiliau gwasanaeth cwsmer a rhyngbersonol rhagorol<br><br>- Gallu gweithio ar eich liwt eich hun ac fel rhan o dîm<br><br>- Gwybodaeth ymarferol dda am Outlook, Word, Excel a systemau meddalwedd rheoli eraill | H<br><br>H<br><br>H<br><br>D | Ffurflen Gais / Cyfweliad<br><br>Ffurflen Gais / Cyfweliad<br><br>Ffurflen Gais / Cyfweliad<br><br>Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| <u>Arall</u><br>- Ymwybyddiaeth o, ac empathi at y Gymraeg a diwylliant Cymru<br><br>- Gwybodaeth glir o faterion Iechyd a Diogelwch | H<br><br>D | Ffurflen Gais / Cyfweliad<br><br>Ffurflen Gais / Cyfweliad |